Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cofnodion y cyfarfod – Cyfarfod y Timau Microsoft (10.01.23)

Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod: Seb Landais , Demi Lee-Cole, Sara Davies a Michele Chung

Hwyluswyr: Maisie Sherratt a Graham Peake

Ymwelwyr: Amherthnasol

Materion a drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Gweithred
1.	Dal i fyny. Arholiadau mocs cyn hir i'r myfyrwyr coleg.	----------
2.	Maniffesto Ieuenctid APCAP - Rhannwyd y fersiwn PDF o'r maniffesto gan Brian yn yr uned graffeg gyda'r grŵp. - Golygu gan y Pwyllgor Ieuenctid – delweddau mwy disglair, cefndir y testun yn fwy clir. - Angen fersiwn Cymraeg a Saesneg. - Aelodau APCAP – rhannu'r fersiwn pdf.	MS i gysylltu â Brian (graffeg) ynglŷn â'r newidiadau. MS i drefnu cyfieithu'r testun. MS i gysylltu â'r Aelodau ynglŷn â rhannu'r Maniffesto Ieuenctid gyda hwy wyneb yn wyneb – cyflwyniad bach gan y Pwyllgor Ieuenctid.
3.	Y ffilm gan Dave - Rhannwyd ffilm y Pwyllgor Ieuenctid gydag aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid. - Yn hapus gyda'r gwaith golygu a'r clipiau terfynol. - Awgrymwyd fersiwn is-deitlau yn Gymraeg, ar wahân i fersiwn is-deitlau Saesneg. - Awgrym y Pwyllgor Ieuenctid i rannu'r fideo ar bob llwyfan APCAP.	MS i gysylltu â Dave (golygydd fideo) ynglŷn â fersiwn Saesneg gydag is-deitlau. MS i gysylltu â'r tîm cyfathrebu ar ôl i'r ddau fersiwn fod ar gael.

4.	Trefnu cyfarfod ar-lein rhwng PCau Cymru. - Gwahodd aelodau pwyllgor ieuenctid Parciau Cenedlaethol eraill Cymru i 'ddal i fyny' gyda Chenhedlaeth Nesaf APCAP. - Dyddiad = 14.02.23 - Amser = 17:30 – 19:00 - Trafod = gweithgareddau a digwyddiadau, nodau ac amcanion, posibilrwydd o gynnal cyfarfod preswyl.	MS i gysylltu â PC Bannau Brycheiniog a PC Eryri i drefnu cyfarfod ar-lein. Aelodau'r pwyllgor ieuenctid i gymryd rheolaeth dros yr agenda a'r cyfarfod.
5.	Gwersyll Parcmyn Ieuenctid Europarc. - 18 oed ac iau yn unig – yn ei gwneud hi'n anodd i ni (16-25).	MS i hysbysu'r pwyllgor ieuenctid a'r parcmyn ieuenctid pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.
6.	Testun Byrddau'r Murlun - Y testun i fynd ar fyrddau neu ar banel dehongli ar wahân? - Y pwyllgor ieuenctid yn cytuno i'r testun fod ar baneli ar wahân - gallai gormod o ysgrifen ar y byrddau dynnu oddi ar eu gwerth gweledol. Sut i gyflwyno'r gwaith celf – Y pwyllgor ieuenctid yn awgrymu portffolio ar-lein gyda QR sy'n arwain at y gwaith celf ar-lein.	MS i gysylltu â'r tîm graffeg ynglŷn â'r panel dehongli gyda thestun Cymraeg a Saesneg i fynd ochr yn ochr â Byrddau'r Murlun. MS a GP i drafod sut i gyflwyno'r portffolio.
7.	Dyddiad y cyfarfod nesaf – 31.01.23	MS i drefnu lleoliad ac amser – Y pwyllgor ieuenctid yn awgrymu Haverhub neu Goleg Sir Benfro.
8.	Parcmyn Ieuenctid. - 15.01.23 – Sgiliau Mapio gyda Chris Taylor – y Parcmyn yn gyffrous am hyn fel cyfle i loywi eu sgiliau ar gyfer digwyddiadau/gweithgareddau'r dyfodol (05.03.23). - 05.02.23 – Tocio coed / Rheoli coetir gyda Mitch Hill – ail-ddechrau gweithgareddau na ellid eu cynnal oherwydd tywydd gwael cyn y Nadolig. - 05.03.23 – Cynllunio llwybrau hygyrch gyda Sam Evans – y Parcmyn yn gyffrous i gael y profiad o ddefnyddio'r cadeiriau olwyn a cherddwyr i gael profiad go iawn. Gweithgareddau yn y dyfodol - Hoffai'r Parcmyn weithio ochr yn ochr â staff APCAP er mwyn cael cipolwg ar 'fywyd yn APCAP'. - Hoffai'r Parcmyn weithio ochr yn ochr â rhai adrannau – Cynllunio, Parcmyn, Wardeniaid, Cadwraeth ac Addysg.	MS i gynnig sesiynau 'bywyd Parcmyn Ieuenctid yn APCAP' i staff APCAP. MS i wahodd y Tîm Darganfod i sesiynau'r Parcmyn Ieuenctid – datblygu'r cyswllt rhwng y Parcmyn Ieuenctid a'r tîm Darganfod. MS i gysylltu ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ynghylch sesiwn i'r Parcmyn Ieuenctid ar waith yr Awdurdod Porthladd.
9.	Unrhyw fater arall	Amherthnasol.

-